# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos**
**am 7.00pm Nos Fercher 30ain o Dachwedd 2022**

1) Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng I Ellis; Cyng B. Jones; Cyng D Jones-Morris; Cyng D W Jones Cyng J Pierce: Cyng J Lewis

2) Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

3) Cod Ymddygiad Esbonwyd fod y drefn i ddatgan buddiant belllach yn haws wrth ein bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb a ffurflenni ar gael gan y Clerc
Dim datgan buddiant

4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-10-2022
Cynnigwyd eu cywirdeb gan y Cyng D Jones Morris ag eilwyd gan y Cyng J Pierce

5) Materion yn codi o'r cofnodion
Tra fod problemau enbyd parcio Ysbyty Gwynedd yn ardal trigolion Penrhos wedi gwella 'roedd yn dal yn broblemus a Phont y Borth yn debygol o fod ar gau tan ddechrau 2023

6) Adroddiad Ariannol
Roedd copia o'r fantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos £46,547.66c yn y Cyfrif Cyfredol a £45,064.37c yn y cyfrif cadw
Dosbarthwyd hefyd arolwg cyllid ar gyfer
diwedd Mawrth 2023 ble yr amcanwyd y byddai £16k yn weddil (Atodiad A )
Amcangyfrifwyd bydd costau arferol rhedeg y Cyngor 2023-24 yn £47K (Atodiad B)
Amcangyfrifwyd Costau Refeniw a £3K ychwnegol/argyfwng yn £50K (Atodiad C)

7. Archwylio Dim diweddariad am 2021-22

8. Cofrestr Risg/Polisia
Datganwyd pryder ynglyn a sefyllfa'r Ganolfan bresennol gan fod pwysau yn cael ei roi i gapasiti'r ysgol gynyddu yn Ionawr a byddai hynny yn gwanio'n achos **Clerc i gysylltu hefo'r adran** ag angen i'n cyfreithwyr hefyd ddwyn pwysa ar Cyngor Gwynedd i geisio dod a'r mater rhyngddynt a'r Eglwys i ben
Cynllun Hyfforddiant Ffurflenni wedi eu rhannu a'i angen yn ol fel y gallwn symud ymlaen i ddatblygu cynllun

9. Taliadau angen sylw Cytunwyd talu y cyfan oedd yn ddyledus isod
Cyflog Tachwedd £610.24 HMRC M 8 £ 152.60 Cyflog Rhagfyr ag ol daliad £ 984.64
HMRC M9 yn cynnwys ol-daliad £246.20
Neuadd Rhiwlas Storio Ebrill 22 i Hydref 22 £240.00
Cymen Cyfieithu 1 cyngor Llawn a 2 IBC £245.93
D W Lewis Torri gwair Tachwedd £460.00 J D Gardening Cae Chwarae Caerhun £ 150.00

Tal i mewn 4 Angladd £400 - £250 - £200 - £110 £ 960.00

10. Ceisiadau Nawdd
a. Goriad
Argymell cyfranu £300

11. Prosiectau
i. Ysgol Y Faenol Gweler Cofrestr Risg

ii. Cae chwarae Caerhun  Tra wedi holi am ail ddyfnbris ‘doedd hwnnw ddim wedi cyrraedd. Cynnigwyd 3ydd Cwmni **Clerc i Gysylltu**

iii. Capel y Fynwent  Amcanbris wedi ei dderbyn i dynnu’r meincia a insiwleiddio’n to Awgrymu chwilio am ail ne drydydd pris **Clerc i drefnu** Sonwyd ymhellach os oedd angen Archwiliad asbestos ag archwylio y Coed **Clerc i Drefnu**

Trydannol  Trydawr wedi ymweld i drafod gwaith adnewyddu gwresogyddion ond nad oedd ganddo yr cymhwyster i wneud archwiliad trydannol ‘commercial’ – **Cytunwyd i symud ymlaen ar y gwaith hwnnw ond hefyd holi ynglyn a chael Cwmni i dderbyn Tystysgrif Drydannol ag ymhellach cael y cwmni hwnnw os yn bosib i gael Tystysgriffau ar gyfer y Capel a hefyd ein Canolfannau yn Glasinfryn a Penrhos**
**Clerc i drefnu/holi**

Prisio Cadeiria **Clerc i drefnu**

iv. Cysgodfannau  Clerc i holi os oes diweddariad ar y Gysgodfan yn capel Graig a prisio cysgodfannau ar gyfer Bryn Ogwen a Goleufryn -

12. I’w trafod hefyd

Yn sgil y trafodaethau uchod aethpwyd ymlaen i drafod Cyllideb ar gyfer gosod Praesept 2023-24

Tra bod angen gwario o fewn y Ganolfan newydd pan ddaw i’n gofal a’r angen gwario ar y prosiectau uchod cytunwyd yn y diwedd fod lle i ystyried gostwng y Praesept eleni o £55K i £50K ag y byddai’r **Is-Bwyllgor Cyllid yn argymell hynny i’r Cyngor LLawn yn Rhagfyr/Ionawr**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00